

CYNLLUN HER NEWID HINSAWDD CYNGOR BRO MORGANNWG 2021-30




Prosiect Sero yw Cynllun y Cyngor i helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwarchod ein hamgylchedd, mae angen i ni: fod yn arweinydd, annog a chefnogi eraill i wneud pethau'n wahanol, a newid sut rydyn ni'n gweithio.

Yn Prosiect Sero rydym wedi nodi'r camau a fydd yn ein helpu i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd a gofalu am ein hamgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys:



Siarad gyda phobl a gwranddo arnyn nhw i'n helpu ni i gyd i ddeall beth gallwn ni ei wneud i helpu.



Gofalu am ein hamgylchedd a'r anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw a thyfu ynddo.



Dal ati i ddysgu am beth gallwn ni ei wneud yn well a pha sgiliau fydd eu hangen arnom yn y dyfodol.




Defnyddio technoleg i helpu staff weithio o gartref a'i gwneud hi'n haws i bobl gael mynediad at wasanaethau.



Annog eraill i feddwl am y ffordd y maen nhw'n teithio e.e. cerdded, beicio, bysus, trenau, cerbydau trydan.




Gwneud yn siŵr bod ein gwaith a'n cynlluniau yn ein helpu i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd e.e. cynllunio a chaffael.



Helpu pobl i weld sut mae bwyd yn effeithio ar ein hamgylchedd a lleihau gwastraff bwyd.



Gwastraffu llai a helpu pobl i aildefnyddio, trwsio ac ailgylchu.



Defnyddio llai o ynni a chael ein hynni o ffynonellau adnewyddadwy fel y gwynt a'r haul.



Mae gwaith i wneud i'n cartrefi a'n hadeiladau gan gynnwys ysgolion ddefnyddio llai o ynni.

Gallwch ddarllen y Cynllun cyfan a gweld dolenni at adroddiadau a fideos eraill [yma](#).

E-bostiwch eich sylwadau a'ch syniadau ar sut y gallwn i gyd weithio i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd i projectzero@valeofglamorgan.gov.uk